# Lleoedd Ffyniannus



Pearson Park

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi prosiectau treftadaeth sy'n creu lleoedd gwell i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.

## Yr hyn a olygwn gyda lle

Gall 'lle' olygu llawer o bethau, ac mae diffiniadau'n amrywio yn dibynnu ar ble rydych chi neu bwy rydych chi'n gofyn. Ond mae enghreifftiau'n cynnwys cymuned leol, tirwedd naturiol neu ddinas gyfan.

## Sut mae treftadaeth yn cefnogi lleoedd gwych

Mae gan lawer o ardaloedd ledled y DU 'ymdeimlad o le' sy'n ysbrydoli balchder lleol a chynyddu llesiant.

Mae treftadaeth wrth wraidd hunaniaeth lle, gan ychwanegu dyfnder, cymeriad a gwerth. Gall hyn gynnwys adeiladau a henebion, tirweddau, strydoedd mawr a pharciau.

Mae treftadaeth yn helpu i gysylltu pobl a chymunedau â lle ac yn hybu ffyniant economaidd lleol.

# Ein cyllid ar gyfer prosiectau treftadaeth

Rydym yn croesawu prosiectau sy'n 'seiliedig ar leoedd'. Mae gweithio yn seiliedig ar leoedd yn ymwneud â:

- nodi heriau a chyfleoedd mewn treftadaeth lle
- datblygu ymatebion sy'n dod â manteision i'r dreftadaeth a'r lle
- meddwl y tu hwnt i brosiect unigol drwy ystyried sut mae'n berthnasol i'ch ardal leol a'ch cymuned
- partneru neu gydlynu â sefydliadau eraill i gynyddu effaith eich prosiect

Wrth ymateb i'r pandemig COVID-19, rydym ar hyn o bryd yn blaenoriaethu prosiectau sy'n creu gwell lleoedd i fyw, gweithio ac ymweld â nhw, ac sy'n rhoi hwb i economïau lleol.

Gweler ein rhaglenni ariannu i gael gwybod sut i wneud cais.

# Cyllidwr lle, nid cyllidwr prosiect yn unig

Rydym hefyd yn cefnogi gweithio ar sail lleoedd drwy:

- datganoli penderfyniadau, sy'n galluogi staff lleol, gydag arbenigedd lleol, i asesu ceisiadau a gwneud dyfarniadau
- mynd i'r afael â thangynrychiolaeth wrth ariannu ardaloedd daearyddol sy'n profi amddifadedd
- gweithio gyda chynghorau lleol ac eraill i gysylltu ein cyllid â blaenoriaethau lleol ehangach
- gweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau cenedlaethol ar fentrau mawr sy'n seiliedig ar leoedd

# Cynnal prosiect sy'n seiliedig ar leoedd

Angen help neu ysbrydoliaeth?

Gallwch ddod o hyd i ganllawiau defnyddiol yma:

- Canllawiau ardal leol
- Canllawiau ar yr economi leol
- Cynlluniau ardal a chynlluniau gweithredu ardal

A darganfod sut y gall treftadaeth greu lleoedd gwell yn enghreifftiau'r prosiect isod.